

TROSEDD CASINEB

Mae digwyddiadau a throseddau sy'n cael eu targedu tuag at unigolyn oherwydd gelyniaeth neu ragfarn tuag at eu hanabledd, hil/ ethnigrwydd, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol yn cael eu dosbarthu yn ddigwyddiadau neu droseddau casineb. Mae ymchwil yn dangos nad yw dros 60% ohonynt yn cael eu hadrodd i'r heddlu.

Y diffiniad o Drosedd Casineb ydi:

Unrhyw ddigwyddiad trosedd sydd yn drosedd, y mae'r dioddefwr neu unigolyn arall yn credu ei fod yn cael ei gymell gan ragfarn neu elyniaeth.



Mae'n hanfodol ein bod yn deall, efallai nad yw natur digwyddiad casineb yn uchel iawn ar y fframwaith o droseddau, ond yn aml mae dioddefwyr digwyddiadau casineb wedi profi'r elyniaeth a'r ymddygiad yma am gyfnodau hir.

Mae cysylltu â'r Heddlu yn gam arwyddocaol iddynt am eu bod ofn achos o edliw.

Bydd ymagwedd gyson a thosturiol tuag at ddioddefwyr a chymunedau yn:

- Gwella ymwybyddiaeth pobl o'r hyn na ddylid ei oddef – troseddau a digwyddiadau casineb.
- Gwella hyder pobl i roi gwybod am droseddau.
- Yn syml mae'r mwyafrif o ddioddefwyr digwyddiadau a throseddau casineb eisiau i'r cwbl **STOPIO**.



SICRHEWCH - fod pob adroddiad o ddigwyddiadau a throseddau casineb yn cael eu cymryd o ddifri. Bydd yr effaith ar y dioddefwr yn sylweddol er y gallai'r digwyddiad ei hun ymddangos yn fychan.

CYMERWCH - weithred bositif er mwyn rhoi stop ar yr ymddygiad troseddol. Nid dioddefwyr troseddau/digwyddiadau casineb yw'r unig rai sydd yn gallu eu hadrodd i'r heddlu.

PEIDIWCH - Â thybio mai problem rhywun arall ydyw. Mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom i ymladd Trosedd Casineb.

- Bu cynnydd o 29% yn nifer y troseddau casineb yng Nghymru a Lloger yn 2017
- Roedd y cynnydd mwyaf mewn trosedd casineb tuag at bobl anabl a thrawsrywiol.
- Fe nodwyd cynnydd sydyn mewn trosedd casineb dros gyfnod y refferendwm ar yr UE.

Mae gweithred bositif i roi STOP ar yr ymddygiad a rhoi gofal/cefnogaeth i'r dioddefwr yn hanfodol.

Cofiwch: os ydyw'n argyfwng, ffoniwch 999 – os nad yw'n achos brys ffoniwch 101

Ewch i wefan Heddlu Gogledd Cymru a chyflwynwch Ffurflen Riportio Trosedd Casineb – www.heddlu-gogledd-cymru.police.uk